


# Cynnig man gwirioneddol gynhwysol i bawb

Mae Outside Lives yn cysylltu pobl sy'n byw ledled Sir y Fflint a Sir Ddinbych yng Ngogledd Cymru, gan ganolbwyntio ar wella llesiant pobl a llesiant y blaned.

Lleolir pencadlys y fenter ar safle coetir 5 acer hardd yng nghefn gwlad Gogledd Cymru, ac mae'n gartref i erddi bywyd gwyllt, cychod gwenyn, coed hynafol, pwll dŵr, cegin awyr agored, caban, iwrt llesiant, twnnel polythen a llu o lecynnau ar gyfer tyfu pethau. Mae'n ased cymunedol llewyrchus a gaiff ei gynnal a'i gadw'n ofalus gan dîm craidd o wirfoddolwyr.

Nod Outside Lives yw creu cymdeithas iachach, fwy gwydn a mwy cadarn. Mae'r fenter yn gwneud hyn trwy fynd ati i gysylltu pobl trwy gyfrwng diddordebau cyffredin, gan ddwyn ynghyd bobl sydd ar ymylon cymdeithas mewn amgylchedd gwirioneddol gynhwysol, a chreu cymunedau mwy cysylltiedig sy'n gweithio gyda'i gilydd i warchod ein planed.

Mae'r fenter yn cynnig sesiynau ymlacio a sesiynau llesiant, ynghyd â dosbarthiadau garddio, gweithdai crefft a gweithgareddau sgiliau coginio. Hefyd, cynhelir tri 'diwrnod cymunedol' rheolaidd sy'n llawn dop o weithgareddau hygyrch, rhad ac am ddim y gall pawb gymryd rhan ynddyn nhw.

Caiff gweithdai, gweithgareddau a digwyddiadau eu harwain gan staff cyflogedig a'u cydgynhyrchu ochr yn ochr â gwirfoddolwyr. Cynhelir y rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn y Pencadlys yng Ngwernymynydd, ar gyrion yr Wyddgrug, ond hefyd cynhelir rhai gweithgareddau mewn hybiau cymunedol ledled Sir y Fflint a Sir Ddinbych, megis Clwb Rygbi'r Wyddgrug. Y llynedd, gweithiodd Outside Lives â mwy na 150 o wirfoddolwyr.

*Nod Outside Lives yw creu cymdeithas iachach, fwy gwydn a mwy cadarn.*





Mae gwirfoddolwyr, staff a phartneriaid allanol yn cyfrannu gwybodaeth (TG, adeiladu waliau cerrig sych, uwchgylchu ac ati), sgiliau (gwrando, mentora, trefnu), cysylltiadau a nodweddion personol (hiwmor neu wytnwch, er enghraifft), sy'n cyfoethogi ein cymunedau.

Mae'r staff yn meddu ar brofiad helaeth o weithio gyda phobl o bob cefndir, ynghyd â phrofiad o warchod ein hamgylchedd a'n planed, a gwybodaeth am y modd y gellir plethu'r ddau beth gyda'i gilydd.

Mae Outside Lives yn cynnig man gwirioneddol gynhwysol i bawb, gan feithrin diwylliant sy'n cydnabod bod pawb yn meddu ar gryfderau, asedau a gwerthoedd a all gyfrannu at ethos 'cymuned gyfan'.